

**Arolygiad Monitro'r
Ddeddf Iechyd Meddwl
[Dirybudd]
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Abertawe Bro Morgannwg:
Rowan House, Uned
Asesu a Thriniaeth**

13 Gorffennaf 2015

Gall y cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) gael eu darparu mewn ffurf neu iaith arall ar gais. Bydd oedi byr wrth i ni baratoi ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn diwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Mae copïau o bob adroddiad, ar ôl ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan, neu cysylltwch â ni: Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu trwy'r canlynol

Ffôn: 0300 062 8163
Ebost: agic@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.hiw.org.uk

Cynnwys

1. Cyflwyniad	2
2. Methodoleg.....	3
3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth.....	4
4. Crynodeb.....	5
5. Canfyddiadau	6
Safonau Craidd	6
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl.....	12
6. Y Camau Nesaf	16
Atodiad A.....	17

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru. Ers mis Ebrill 2009, AGIC sydd wedi bod yn gyfrifol am fonitro cymhwyso Deddf Iechyd Meddwl 1983 ar ran Gweinidogion Cymru.

Mae ein harolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys ysbytai annibynnol yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl a gynigir gan y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG). Mae ymweliadau arolygu yn elfen allweddol o'n dull o asesu ansawdd a diogelwch gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau anabledydd dysgu yng Nghymru.

Yn ystod ein hymweliadau, rydym yn sicrhau bod buddiannau'r cleifion yn cael eu monitro a bod lleoliadau'n cyflawni eu cyfrifoldebau, a hynny drwy:

- Fonitro eu cydymffurfiaid â Deddf Iechyd Meddwl 1983, Deddf Galluedd Meddyliol 2005, a'r Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid
- Cydymffurfio, fel sy'n berthnasol, â Safonau Gofynnol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru yn unol â gofynion Deddf Safonau Gofal 2000 a Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011

Pwyslais arolygiadau monitro Deddf Iechyd Meddwl AGIC yw sicrhau bod unigolion sy'n derbyn gwasanaethau o'r fath yn:

- Ddiogel
- Derbyn gofal mewn amgylchedd therapiwtig a chartrefol
- Cael eu cynorthwyo i fod mor annibynnol â phosibl
- Cael eu caniatáu a'u hannog i wneud dewisiadau
- Cael mynediad at amrywiaeth o weithgareddau sy'n eu hannog i wireddu eu llawn potensial
- Gallu cael mynediad at eiriolwyr annibynnol ac yn cael eu cynorthwyo i godi pryderon a gwneud cwynion
- Cael eu cynorthwyo i gynnal perthynas â theulu a ffrindiau pan fyddant yn dymuno gwneud hynny.

2. Methodoleg

Mae'r model arolygu a ddefnyddir gan AGIC i gyflenwi arolygiadau monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn cynnwys:

- Craffu ar y dogfennau ar gyfer cleifion sy'n cael eu cadw dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983
- Arsylwi ar yr amgylchedd
- Cyfweiliadau a thrafodaethau cynhwysfawr â chleifion, perthnasau, eiriolwyr, a chroestoriad o staff
- Archwilio dogfennau gofal, gan gynnwys dogfennau'r tîm amlddisgyblaethol
- Craffu ar weithgareddau hamdden a chymdeithasol
- Ystyried ansawdd y bwyd

Mae AGIC yn defnyddio amrywiaeth o adolygwyr arbenigol, sydd â phrofiad helaeth o fonitro cydymffurfiaeth â Deddf Iechyd Meddwl 1983, yn y broses arolygu. Mae'r arolygiadau hyn yn cynnig cipolwg ar y safonau gofal y mae cleifion yn eu derbyn.

3. Cyd-destun a disgrifiad o'r gwasanaeth

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl o Rowan House, Caerdydd, ar 13 Gorffennaf 2015.

Mae Rowan House yn ysbyty anabledd dysgu sy'n cynnwys ward ag wyth gwely ac sy'n darparu gofal i gleifion â diagnosis deuol o anabledd dysgu a phroblem iechyd meddwl. Rowan House yw'r unig wasanaeth i gleifion mewnlol sydd ar safle Ysbyty Trelái gynt. Mae'n rhan o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ac yn darparu gwasanaethau i gleifion o Gaerdydd a Bro Morgannwg yn bennaf.

Yn ystod ein harolygiad, gwnaethom adolygu cofnodion cleifion, cyfweld â chleifion a staff, adolygu'r amgylchedd gofal, ac arsylwi ar y rhyngweithio rhwng y staff a'r cleifion. Roedd y tîm arolygu'n cynnwys un adolygydd y Ddeddf Iechyd Meddwl, ac un aelod o staff AGIC.

4. Crynodeb

Mae Rowan House yn ysbyty anableddau dysgu a adeiladwyd i'r diben, ond roedd angen ailaddurno a moderneiddio rhai rhannau o'r ysbyty. Roedd amgylchedd digynnwrf a hamddenol trwy gydol ein hymweliad.

Roedd yr uned yn cynnwys dodrefn priodol ar gyfer y grŵp cleifion, ond gellid gwneud gwelliannau i'r ystafelloedd gwely er mwyn gwella profiad y claf a gwneud yr amgylchedd yn fwy cartrefol.

Dyweddodd y cleifion wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysbyty a'u bod yn cael gofal da. Dywedodd y cleifion ac aelodau o'u teuluoedd fod y staff yn barod i helpu. Wrth adolygu dogfennau cleifion, roedd yn amlwg bod cleifion, teuluoedd a'r gofalwyr yn cyfrannu at ofal y cleifion.

Gwnaethom adolygu sampl o ddogfennau statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Er bod absenoldeb Adran 17¹ yn cael ei awdurdodi yn unol â'r Ddeddf, credwn fod angen gwella'r maes hwn yn unol â Chod Ymarfer Cymru ar y Ddeddf Iechyd Meddwl.

¹ Caniatâd i adael tiroedd yr ysbyty sy'n cael ei awdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf.

5. Canfyddiadau

Safonau Craidd

Amgylchedd y ward

Ar ddiwrnod yr arolygiad, roedd y mynediad wedi'i ddiogelu gan glo â chod rhifau i rwystro pobl rhag cael mynediad heb awdurdod. Yn seiliedig ar benderfyniad clinigol i atal nifer o'r cleifion sy'n cael eu cadw rhag gadael y ward heb ganiatâd, roedd rhaid cloi'r drws o'r tu mewn. Mae hyn wedi'i gofnodi yng nghofnod y drws clo, ac mae'r bwrdd iechyd yn monitro pa mor aml y mae hyn yn digwydd. Mae'r ward yn arddangos gwybodaeth sy'n esbonio i'r cleifion sy'n cael gadael y ward sut y gallant wneud hynny, os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Roedd yr uned i'w gweld yn lân, ac yn gyffredinol nid oedd annibendod nac aroglau amhleserus neu aroglau clinigol ynddi. Roedd y dodrefn yn briodol ar gyfer y grŵp cleifion, ac roedd lluniau'n cael eu harddangos o amgylch y ward. Fodd bynnag, roedd angen ailaddurno a moderneiddio'r ward oherwydd roedd y carpedi, y waliau a drysau'r ystafelloedd gwely'n edrych fel petaent wedi'u gwisgo neu angen eu diweddarau. Gwnaethom sylwi yn ystod arolygiadau diweddar fod dwy uned derbyn a thriniaeth anabledd dysgu arall y bwrdd iechyd yn edrych yn fwy modern na Rowan House.

Roedd gan Rowan House ardal gymunedol fawr oedd yn cynnwys lolfa, ardal fwyta, a man gwag mawr arall ar gyfer gweithgareddau. Roedd cynllun y ward yn golygu ei bod yn hawdd i ni arsylwi ar yr hyn oedd yn digwydd yno.

Roedd gan y cleifion fynediad uniongyrchol o'r lolfa gymunedol at ddwy ardd gaeedig fawr. Roedd un o'r gerddi ar agor, a gallai cleifion fynd at yr ardal hon yn rhwydd. Fodd bynnag, roedd yr ardd hon ychydig yn foel oherwydd bod claf wedi tynnu'r holl flodau, planhigion a rhai canghennau o'r coed o'r ardd yn ddiweddar. Fe'n hysbyswyd nad oedd unrhyw gynlluniau di-oed i ailddatblygu'r ardd hon rhag ofn i ddigwyddiad tebyg ddigwydd eto. Roedd yr ardd arall yn cael ei chynnal a chadw i safon ddymunol, ond ni allai cleifion fynd ati heb aelod o staff gan fod y drws ar glo i atal digwyddiad tebyg rhag digwydd eto.

Rydym yn bryderus bod peidio ag ailddatblygu un o'r gerddi, a chyfyngu ar fynediad i'r llall, er mwyn rheoli risgiau i un claf, yn cael effaith ar y cleifion eraill.

Roedd y cleifion yn gallu ysmegu yn yr ardd, ac roedd cyfleusterau addas wedi eu gosod i hwyluso hyn.

Camau gofynnol

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amgylchedd y gofal yn adlewyrchu uned asesu a thriniaeth anabledd dysgu fodern.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau eraill ar gyfer rheoli risgiau'r claf unigol fel nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y cleifion eraill.

Preifatrwydd ac urddas

Roedd yr ystafelloedd gwely ar ddau goridor, un gyda thair ystafell wely a'r llall gyda phum ystafell wely. Roedd gan y cleifion ystafelloedd gwely unigol; fodd bynnag, nid oedd ganddynt gyfleusterau en-suite. Mae toiledau ac ystafelloedd ymolchi ym mhob un o goridoriau'r ystafelloedd gwely. Os oedd cymysgedd rhyw'r cleifion yn caniatáu hynny, byddai'r staff yn dynodi coridor i'r dynion a choridor i'r merched.

Roedd golwg hen ar ddrysau'r ystafelloedd gwely, a dim ond un ystafell wely oedd â phanel gwyllo yn y drws. Nid oedd yn bosibl rheoli'r panel gwyllo, ond roedd y gwydr yn farugog er mwyn preifatrwydd y claf yn yr ystafell. Yn ein tyb ni, nid oedd drysau'r ystafelloedd gwely na'r panel gwyllo o safon a ddisgwylir mewn ysbyty modern, a dylai'r bwrdd iechyd adolygu'r mater hwn.

Roedd cleifion yn gallu cloi drysau eu hystafelloedd gwely o'r tu mewn, ond roedd staff yn gallu eu hagor pe bai angen. Roedd cleifion yn mynd trwy asesiad risg er mwyn penderfynu a oeddent yn gallu cael eu hallwedd ystafell wely eu hunain. Roedd digon o le i'r cleifion storio'u heiddo personol yn eu hystafelloedd gwely, a oedd yn cynnwys cwpwrdd y gellid ei gloi.

Ychydig iawn o eitemau personol y cleifion oedd yn yr ystafelloedd gwely a welsom. Nid oedd rhan o'r wal y gallai'r cleifion ei defnyddio i arddangos lluniau neu ffotograffau. Byddai angen iddynt eu gosod yn syth ar y wal. Fe'n hysbyswyd bod lluniau a ffotograffau'n disgyn oddi ar y waliau'n aml. Byddai'n fuddiol pe bai bwrdd arddangos diogel yn ystafelloedd gwely'r cleifion ar gyfer dangos lluniau a ffotograffau.

Roedd cleifion yn cael eu hannog i arfer sgiliau byw yn ddyddiol er mwyn cynnal a datblygu sgiliau, gan gynnwys gwneud a newid eu gwelyau a golchi eu dillad. Fodd bynnag, fe welsom fod dillad gwely glân wedi cael eu darparu i gleifion mewn rhai ystafelloedd gwely ond nad oedd unrhyw le priodol i'w cadw nes i'r unigolyn newid y gwely, ac roeddent wedi cael eu gadael ar y sil ffenestr. Dylai'r bwrdd iechyd ystyried trefniadau eraill ar gyfer storio dillad gwely glân dros dro yn ystafelloedd gwely'r cleifion.

Roedd yn bleser nodi bod cyfleusterau golchi dillad ar y ward, ac roedd y cleifion yn gallu golchi a smwddio eu dillad, gyda chymorth y staff, fel rhan o'r broses o gynnal neu ddatblygu sgiliau'r cleifion. Fodd bynnag, os nad oedd cleifion yn gallu golchi eu dillad eu hunain, byddai staff yn gwneud hyn drostynt. Mae angen i'r bwrdd iechyd fonitro hyn er mwyn sicrhau nad yw'r amser mae'r staff nyrsio'n ei dreulio'n golchi dillad cleifion yn tynnu oddi wrth yr amser maent yn ei dreulio'n gofalu am gleifion. Roedd gan gleifion amseroedd neilltuedig mewn amserlen wythnosol er mwyn sicrhau eu bod yn gallu golchi eu dillad.

Roedd cyfleusterau ymolchi a chawod ar gael i'r cleifion eu defnyddio. Nid oedd dim cymhorthion symudedd ar gael i helpu cleifion, ond dywedwyd wrthym fod cleifion oedd angen cymorth gyda symudedd yn cael gofal mewn lleoliad anabledd dysgu arall o fewn y bwrdd iechyd. Rydym o'r farn y dylid adolygu hyn er mwyn i'r bwrdd iechyd fod yn sicr bod cleifion sydd angen cymorth symudedd yn cael darpariaeth gofal teg o fewn eu gwasanaethau.

Drwy gydol yr arolygiad, gwelsom staff yn rhyngweithio â'r cleifion mewn modd gofalgarn a pharchus. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw a'u teuluoedd fod y staff yn barod eu cymwynas ac yn garedig.

Camau gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau ystafelloedd gwely'n rhoi preifatrwydd i gleifion ac yn caniatáu i staff arsylwi ar glaf yn ystod y nos heb amharu ar gwsg y claf.

Rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu i alluogi cleifion i arddangos lluniau a ffotograffau ar y wal yn ddiogel yn eu hystafelloedd gwely.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau trefniadau priodol ar gyfer storio dillad gwely glân dros dro yn ystafelloedd gwely'r cleifion.

Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau'r trefniadau i gleifion sydd angen cymorth symudedd o ran cael mynediad at wasanaeth asesu a thriniaeth anableddau dysgu o fewn ardal Caerdydd a'r Fro.

Diogelwch

Dyweddodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo'n ddiogel yn Rowan House. Roedd modd i staff yr ysbyty gael mynediad at bolisi arsylwi'r bwrdd iechyd ar y ward, a thrwy gyfrwng system gyfrifiadurol y bwrdd iechyd.

Gellid gwneud cwlwm ar rai o osodiadau a ffitiadau'r ysbyty, ac fe allai hyn beri risg i'r cleifion. Dywedodd y staff y byddai lefelau arsylwi'n cynyddu, os oedd angen, er mwyn adlewyrchu'r risg sy'n cael ei beri gan ymddygiad

unrhyw glaf. Fodd bynnag, rydym o'r farn y dylai'r bwrdd iechyd adolygu amgylchedd Rowan House i leihau nifer y pwyntiau clymu.

Roedd yr holl staff sy'n gweithio yn yr ysbyty wedi derbyn hyfforddiant mewn Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol². Gwelsom staff yn dad-ddwysáu ac yn ailgyfeirio cleifion mewn ffordd urddasol a gofalgar. Nid yw'r ysbyty yn defnyddio ymwahanu³. Roedd rheoli ymddygiad yn gadarnhaol yn cael ei fonitro ac yn cael ei ymgorffori yn y rhaglen hyfforddiant i sicrhau bod staff yn derbyn hyfforddiant rheoli ymddygiad yn gadarnhaol oedd yn briodol ar gyfer gweithio yn Rowan House.

Nid oedd y staff yn cario larymau personol ar ddiwrnod yr arolygiad. Roedd larymau ar gael, a dywedwyd wrthym fod y staff yn derbyn larymau os penderfynir bod risg clinigol.

Cam gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r gosodiadau a'r ffitiadau er mwyn lleihau'r pwyntiau clymu posibl yn Rowan House.

Y tîm amlddisgyblaethol

Mae'r tîm nyrsio craidd ar gyfer yr ysbyty yn cynnwys dwy nyrs gofrestredig a dau gynorthwydd nyrsio yn ystod y dydd, ac un nyrs gofrestredig ac un cynorthwydd nyrsio yn ystod y nos.

Roedd pob nyrs gofrestredig a oedd yn gweithio yn Rowan House wedi cwblhau hyfforddiant anabledd dysgu. Dywedodd y staff fod y lefelau nyrsio a'r gymysgedd sgiliau'n briodol ar gyfer y grŵp cleifion presennol, ac roeddem o'r farn bod digon o staff yn gweithio ar ddiwrnod yr arolygiad. Fe'n hysbyswyd bod un swydd wag ar gyfer nyrs yn yr ysbyty, a bod y bwrdd iechyd wrthi'n recriwtio ar gyfer y swydd hon.

Nid yw Rowan House yn defnyddio staff banc y bwrdd iechyd na staff asiantaeth. Roedd y tîm staff presennol yn yr ysbyty yn gweithio'r rotâu staffio, ac roeddent yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion. Os oes diffyg staff, mae'r ysbyty'n defnyddio staff o gyfarwyddiaeth anabledd dysgu'r bwrdd iechyd.

Roedd tri ymgynghorydd yn Rowan House, ac roeddent yn cael eu rhannu ar draws ardal Caerdydd a'r Fro. Roedd un ymgynghorydd ar y ward, ac roedd hyn o fudd i'r cleifion a'r tîm staff. Roedd rowndiau ward amlddisgyblaethol a chyfarfodydd tîm amlddisgyblaethol yn cael eu cynnal bob wythnos.

² Mae Rheoli Ymddygiad yn Gadarnhaol yn ddull a ddefnyddir er mwyn deall yr hyn sy'n cynnal ymddygiad heriol unigolyn, a sut i ryngweithio ag ef er mwyn lleihau ei ymddygiadau heriol.

³Cadw claf o dan oruchwyliaeth mewn ystafell a all fod o dan glo.

Roedd therapi galwedigaethol a therapi celf yn cyfrannu at y gofal yn Rowan House. Gallai staff wneud atgyfeiriadau at seicolegydd, dietegydd, a therapydd lleferydd ac iaith, ynghyd â gwasanaethau iechyd corfforol fel ffisiotherapi, podiatreg a deintyddiaeth. Siaradodd y staff am gysylltiadau da gyda'r timoedd cymunedol a pharhau i ymgysylltu â chleifion wedi iddynt gael eu rhyddhau o Rowan House. Siaradodd y staff hefyd am gysylltiadau cadarnhaol gyda'r gwasanaethau iechyd meddwl sy'n cael eu rhedeg gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, gan gynnwys yr adran therapi electrogynhyrfol⁴.

Cam gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ynglŷn â recriwtio i'r swydd wag ar gyfer nyrs yn Rowan House.

Therapiau a gweithgareddau i gleifion

Mae gan y cleifion gynlluniau gweithgareddau a therapi unigol, ac roeddent yn gallu dewis pa weithgareddau a therapïau roeddent am eu gwneud bob dydd, yn ogystal â set o weithgareddau craidd sy'n gysylltiedig â'u hanghenion a'u galluoedd penodol.

Mae staff Rowan House yn gweithio gyda'r staff lleoli cymunedol i barhau gyda rhaglenni cymunedol y cleifion unigol unwaith iddynt ymgysylltu â'r ward. Oherwydd cyfyngiadau staff Rowan House, ni fyddai'n bosibl iddynt barhau rhaglenni cymunedol yr holl gleifion heb gymorth y staff lleoli cymunedol. Mae gan y staff fws mini penodedig sy'n galluogi'r ward i hwyluso teithiau i'r gymuned i grwpiau.

Mae therapydd galwedigaethol yn cyfrannu at y gofal yn Rowan House, ac mae'n arwain gweithgareddau ar y ward. Fodd bynnag, nid oedd y therapydd galwedigaethol yn benodol ar gyfer Rowan House, a oedd yn cyfyngu ar bryd roedd ar gael. Fodd bynnag, mae staff yn Rowan House yn cynnal gweithgareddau ar y ward, gan gynnwys gweithgareddau i ddathlu gwyliau fel y Nadolig a Chalan Gaeaf.

Oherwydd lleoliad Rowan House, roedd gan y cleifion fynediad hawdd at amwynderau lleol megis siopau.

Cam gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfraniad a wneir gan therapydd galwedigaethol i'r gofal yn Rowan House.

⁴ Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, lle caiff trawiadau eu hachosi trwy alluogi trydan i lifo drwy ymennydd claf sydd dan anesthetig.

Gofal iechyd cyffredinol

Darperir ar gyfer anghenion iechyd corfforol y cleifion gan feddygon yn Rowan House. Fe'n hysbyswyd gan staff bod y cleifion yn mynd i'r ysbyty cyffredinol ar gyfer unrhyw gyflwr na ellir ei drin yn Rowan House os oes angen.

Mae'r cleifion yn aros gyda'u gwasanaeth meddyg teulu a'u deintydd eu hunain, neu maent yn cael eu hatgyfeirio at ddeintydd cymunedol sydd â pherthynas weithio dda iawn gyda Rowan House. Fe'n hysbyswyd bod y deintydd yn ymweld â chlaf yn yr ysbyty pe ystyrir ei fod yn anymarferol mynd â'r claf i bractis deintyddol cymunedol.

Mae'r cleifion yn mynd i weld trinwyr gwallt lleol yn y gymuned, ac maent yn gyfarwydd â'r grŵp cleifion.

Bwyd a maeth

Roedd cyfleusterau arlwyio priodol yn yr ysbyty, ac roedd cegin yr ysbyty'n darparu prydau bwyd o'r cyflenwad o fwyd oer i'w goginio. Mae'r cleifion yn dewis eu prydau bwyd o fwydlen yr ysbyty a oedd ar gael ar fformat darluniol i gleifion yn ôl yr angen. Yn ogystal, roedd modd i'r staff fod yn hyblyg gyda cheisiadau'r cleifion. Mae gan yr ysbyty bolisi amseroedd bwyd gwarchoddedig.

Roedd gan y cleifion fynediad at amrywiaeth o fyrbrydau y tu allan i amserau prydau bwyd, ac roedd ffrwythau ffres a diodydd ar gael yn gyfleus iddynt.

Roedd dietegydd a gwasanaeth therapydd lleferydd ac iaith yn cyfrannu at y gofal yn yr ysbyty yn ôl yr angen.

Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl

Roedd chwe chlaf yn derbyn gofal yn Rowan House, ac roedd pob un ohonynt rhwng 18 a 65 oed. Roedd nifer o gleifion wedi eu cadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl ar adeg ein harolygiad. Gwnaethom adolygu sampl o'r dogfennau statudol, a gweld eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Cadw cleifion

Roedd y dogfennau ar gyfer pob un o'r cleifion sydd wedi'u cadw yn dangos bod o leiaf un o'r meddygon wedi'i gymeradwyo o dan Adran 12⁵, ac roedd o leiaf un o'r meddygon wedi cwrdd â'r claf o'r blaen⁶.

Ar gyfer cadw cleifion dan Adran 3⁷, roedd y dogfennau statudol yn nodi bod y triniaethau meddygol priodol ar gael yn Rowan House .

Nid oedd y meddyg a oedd yn gosod claf o dan y Ddeddf wedi nodi ar y dogfennau statudol y rhesymau pam nad oedd derbyniad anffurfiol i ysbyty yn ffordd briodol o ddarparu gofal ym mhob achos. Yn yr achosion hyn, nodwyd na fyddai triniaeth ar gael yn y gymuned, a dylid cyfeirio at ddiffyg galluedd y claf i benderfynu aros yn yr ysbyty. Fodd bynnag, fe fyddai'n briodol i'r meddyg nodi'r casgliad ar y papur cadw, sef nad oedd derbyniad anffurfiol i ysbyty yn briodol.

Wrth asesu'r cleifion ar gyfer eu cadw dan Adran 2⁸ ac Adran 3, roedd y gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy ar gyfer y cleifion unigol wedi nodi perthynas agosaf y claf ac wedi cysylltu â nhw. Fodd bynnag, nid oedd copi o ffurflen asesiad y gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy bob amser yn ffeil y claf.

Nid oedd unrhyw un o'r cleifion wedi bod yn destun cais brys dan Adran 4⁹ na phwerau cadw dan Adran 5¹⁰.

Cam gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod copi o asesiadau'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy'n cael eu cadw yn ffeiliau'r cleifion.

⁵ Meddyg a gymeradwywyd gan Weinidogion Cymru (neu'r Ysgrifennydd Gwladol) dan y Ddeddf fel un sydd â phrofiad arbennig o wneud diagnosis neu drin anhwylder meddyliol. Mewn gwirionedd, mae byrddau iechyd lleol yn gwneud y penderfyniadau hyn ar ran Gweinidogion Cymru.

⁶ Pan fo hynny'n ymarferol, dylai un o'r meddygon sy'n argymhell cadw claf fod wedi cwrdd â'r claf yn flaenorol – Adran 12(2) o'r Ddeddf.

⁷ Adran 3 – wedi'i dderbyn ar gyfer triniaeth, claf wedi'i gadw dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

⁸ Adran 2 – wedi'i dderbyn ar gyfer asesiad, claf wedi'i gadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl.

⁹ Cais i gadw claf er mwyn asesu anhwylder meddyliol, a wneir ar sail un argymhelliad meddygol yn unig mewn achosion brys.

¹⁰ Y pwerau yn Adran 5 y Ddeddf sy'n caniatáu i gleifion mewnol mewn ysbyty gael eu cadw dros dro fel y gellir gwneud penderfyniad ynglŷn ag a ddyliid gwneud cais i'w cadw ai peidio.

Cadw parhaus

Pan oedd claf wedi bod yn destun cam adnewyddu'r cyfnod cadw, roedd y ffurflenni rhagnodedig cywir wedi cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd y dogfennau statudol yn nodi pam mai cadw'r claf o dan y Ddeddf oedd y ffordd fwyaf priodol o ddarparu gofal i'r claf o hyd.

Apelio yn erbyn cadw claf

Roedd y cleifion wedi cael eu hysbysu am eu hawl i apelio yn erbyn cael eu cadw; roedd yn amlwg y byddai'r prosesau'n cael eu dilyn pe bai'r cleifion am apelio i wrandawiaid Rheolwyr Ysbyty a Thribiwnlysoedd Adolygu Iechyd Meddwl.

Wrth adolygu dogfennau ar gyfer gwrandawriad Rheolwyr Ysbyty ar gyfer claf roedd ei gyfnod cadw wedi cael ei adnewyddu o dan Adran 20 y Ddeddf, nodwyd bod gwrandawriad y Rheolwyr Ysbyty wedi cael ei gynnal ar ôl adnewyddu'r cyfnod cadw, ac nid cyn y cyfnod cadw cyfredol, yn unol â'r hyn a nodir ym mharagraff 27.11 o'r Cod Ymarfer.

Cam gofynnol

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl wrandawiaid Rheolwyr Ysbyty yn cael eu cynnal cyn bod y cyfnod cadw cyfredol yn dod i ben.

Adran 132 – darparu gwybodaeth

Roedd tystiolaeth glir bod y cleifion yn derbyn gwybodaeth reolaidd am eu cadw ac am eu hawliau o dan y Ddeddf. Lle'r oedd angen, pan oedd y cleifion yn gwrthod cyfathrebu â'r staff, neu os nad oeddent yn gallu deall y wybodaeth, byddai'r staff yn ceisio rhoi'r wybodaeth i'r cleifion yn rheolaidd.

Mae Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol¹¹ o'r gwasanaeth eiriolaeth iechyd meddwl annibynnol dynodedig yn mynychu Rowan House.

Cydsynio i driniaeth

Roedd darpariaethau Cydsynio i Driniaeth Adran 58¹² y Ddeddf wedi eu cofnodi a'u hawdurdodi'n gywir yn achos cleifion a oedd yn ddarostyngedig iddynt. Roedd copïau o'r tystysgrifau cydsynio i driniaeth wedi'u cadw gyda Chofnod Rhoi Meddyginiaethau pob claf, lle'r oedd hyn yn berthnasol. Lle bu'n

¹¹ Eiriolwr sy'n annibynnol ar y tîm sy'n darparu gofal y claf ac sydd ar gael i gynnig cymorth i gleifion o dan drefniadau mae angen eu gwneud yn benodol o dan y Ddeddf.

¹² Ffurf ar driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol, ac mae'r rheolau arbennig yn Adran 58 y Ddeddf yn berthnasol iddi. Golyga hyn roi meddyginiaeth ar gyfer anhwylder meddyliol i gleifion sy'n cael eu cadw yn dilyn cyfnod cychwynnol o dri mis.

rhaid i feddyg a benodwyd i roi ail farn¹³ awdurdodi tystysgrif cydsynio i driniaeth, cafodd cofnod o'r broses hon ei nodi yn nodiadau'r claf. Fodd bynnag, nid oedd yr ymgynghorai statudol¹⁴ wedi cofnodi eu trafodaeth gyda'r meddyg a benodwyd i roi ail farn yng nghofnodion y cleifion ym mhob achos, fel y nodir ym mharagraff 18.23 y Cod Ymarfer.

Cam gofynnol

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ymgynghorwyr statudol yn cofnodi eu trafodaeth gyda'r meddyg a benodwyd i roi ail farn a bod y cofnod hwn yn cael ei gadw yn nodiadau'r cleifion.

Caniatâd i fod yn absennol o dan Adran 17

Cafodd pob ffurflen awdurdodi absenoldeb ei hawdurdodi gan glinigydd cyfrifol y claf. Fodd bynnag, roedd yr amodau absenoldeb ar rai ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 yn annelwig, ac nid oeddent yn dangos yn eglur i ble'r oedd y claf yn cael caniatâd i fynd.

Gwnaethom nodi bod ffeiliau cleifion yn cynnwys ffurflenni absenoldeb oedd wedi dod i ben nad oeddent wedi cael eu marcio'n annilys. Mae'n arfer da i sicrhau bod ffurflenni awdurdodi absenoldeb sydd wedi dod i ben yn cael eu marcio fel rhai sydd bellach yn annilys.

Roedd yn amlwg bod teuluoedd a gofalwyr wedi derbyn copïau o ffurflenni awdurdodi absenoldeb pan oedd hyn yn briodol. Cafwyd cofnod yn nodiadau'r cleifion o ba mor llwyddiannus oedd eu cyfnod o absenoldeb, yn ogystal ag unrhyw broblemau neu bryderon a gododd yn ystod y cyfnod o absenoldeb.

Roedd yr ysbyty wedi nodi risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb, yn ogystal â'r hyn sy'n achosi'r risgiau a'r camau gweithredu y dylai staff eu cymryd pe baent yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, prin oedd y wybodaeth ynglŷn â'r tebygrwydd y byddai'r risgiau hyn yn cael eu gwireddu.

Camau gofynnol

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 yn nodi'n briodol beth yw amodau'r absenoldeb.

¹³ Meddyg annibynnol a benodir gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n rhoi ail farn ynghylch a ddylid rhoi mathau penodol o driniaeth feddygol ar gyfer anhwylder meddyliol heb gydsyniad y claf.

¹⁴ Mae'n ofynnol i feddygon a benodwyd i roi ail farn ymgynghori â dau unigolyn cyn cyflwyno tystysgrifau'n cydsynio i driniaeth. Rhaid i un o'r ymgynghoreion fod yn nyrs; ni all y llall fod naill ai'n nyrs nac yn feddyg. Rhaid i'r ddau ohonynt fod wedi bod yn ymwneud â thriniaeth feddygol y claf.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb dan Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n glir fel un sydd bellach yn annilys.

Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.

Cleifion cyfyngedig

Nid oedd yr un o'r cleifion wedi cael eu cadw dan Adran 3 o'r Ddeddf, *Cleifion sy'n gysylltiedig ag achos troseddol neu sydd dan ddeddfryd.*

6. Y Camau Nesaf

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd gwblhau cynllun gwella (Atodiad A) i fynd i'r afael â chanfyddiadau allweddol yr arolygiad a chyflwyno ei gynllun gwella i AGIC o fewn pythefnos i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn Rowan House yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni ar gyfer hynny.

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a'i werthuso fel rhan o'r broses barhaus o fonitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl.

Atodiad A

Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl:

Cynllun Gwella

Bwrdd Iechyd:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannawg

Ysbyty:

Rowan House

Dyddiad yr arolygiad:

13 Gorffennaf 2015

Rhif y dudalen	Argymhelliad	Cam Gweithredu'r Bwrdd Iechyd	Swyddog Cyfrifol	Amserlen
Safonau Craidd				
7	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod amgylchedd y gofal yn adlewyrchu uned asesu a thriniaeth anabledd dysgu fodern.	Bydd adolygiad llawn o'r ystâd yn cael ei gynnal, a bydd cynllun gweithredu'n cael ei ddatblygu.	Rheolwr Ystadau	Medi 2015
7	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd wneud trefniadau eraill ar gyfer rheoli risgiau'r claf unigol fel nad ydynt yn effeithio'n uniongyrchol ar y cleifion eraill.	Mae'r cynllun rheoli risg yn cael ei adolygu gan y tîm amlddisgyblaethol.	Rheolwr yr Uned	17 Awst 2015

8	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod drysau ystafelloedd gwely'n rhoi preifatrwydd i gleifion ac yn caniatáu i staff arsylwi ar glaf yn ystod y nos heb amharu ar gwsg y claf.	Mae adolygiad y tîm ystadau o'r amgylchedd i gynnwys paneli gwyllo drysau'r ystafelloedd gwely.	Ystadau	Medi 2015
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd drefnu i alluogi cleifion i arddangos lluniau a ffotograffau ar y wal yn ddiogel yn eu hystafelloedd gwely.	Mae lluniau wedi cael eu prynu a'u gosod ar y waliau. Adolygiad gan ystadau i gynnwys datrys hyn.	Rheolwr yr Uned Ystadau	Cwblhawyd Awst 2015 Medi 2015
8	Mae'n rhaid i'r bwrdd iechyd gadarnhau'r trefniadau i gleifion sydd angen cymorth symudedd o ran cael mynediad at wasanaeth asesu a thriniaeth anabledd dysgu o fewn ardal Caerdydd a'r Fro.	Mae darpariaeth hygyrch ar gael yn y ddwy uned asesu a thriniaeth arall. Mae cleifion sydd angen cymorth symudedd yn cael eu derbyn i un o'r ddwy uned hyn.	Amherthnasol	Amherthnasol
8	Rhaid i'r bwrdd iechyd roi diweddariad ynglŷn â recriwtio i'r swydd wag ar gyfer nyrs yn Rowan House.	Nyrs staff wedi cael ei recriwtio		Cwblhawyd
10	Rhaid i'r bwrdd iechyd adolygu'r cyfraniad a wneir gan therapydd galwedigaethol i	Bydd lefelau gweithgareddau cleifion, sgiliau staff wrth ddarparu gweithgareddau, a chyfraniadau	Y prif reolwr	Medi 2015

	Rowan House.	therapi galwedigaethol yn cael eu hadolygu gan y rheolwyr gweithredol.		
Gweithredu'r Ddeddf Iechyd Meddwl				
13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod copi o asesiadau'r gweithiwr iechyd meddwl proffesiynol cymeradwy'n cael eu cadw yn ffeiliau'r cleifion.	Cytunwyd a gweithredir arno ar unwaith. Bydd ffeiliau'n cael eu harchwilio.	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Hydref 2015
13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod holl wrandawiadau Rheolwyr Ysbyty yn cael eu cynnal cyn bod y cyfnod cadw cyfredol yn dod i ben.	Cytunwyd, system i'w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd ffeiliau'n cael eu harchwilio.	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Hydref 2015
13	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr ymgynghorwyr statudol yn cofnodi eu trafodaeth â'r meddyg a benodwyd i roi ail farn a bod y cofnod hwn yn cael ei gadw yn nodiadau'r cleifion.	Cytunwyd, system i'w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd ffeiliau'n cael eu harchwilio.	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Hydref 2015
14	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod ffurflenni awdurdodi absenoldeb Adran 17 yn nodi'n briodol beth yw amodau'r absenoldeb.	Cytunwyd, system i'w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd ffeiliau'n cael eu harchwilio.	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Hydref 2015

15	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod pob ffurflen awdurdodi absenoldeb dan Adran 17 sydd wedi dod i ben yn cael ei marcio'n glir fel un sydd bellach yn annilys.	Cytunwyd, system i'w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd ffeiliau'n cael eu harchwilio.	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Hydref 2015
15	Rhaid i'r bwrdd iechyd sicrhau bod yr asesiad o risgiau posibl tra bod cleifion ar gyfnod absenoldeb yn cynnwys gwybodaeth am ba mor debygol yw'r risgiau hyn o gael eu gwireddu.	Cytunwyd, system i'w rhoi ar waith ar unwaith. Bydd ffeiliau'n cael eu harchwilio.	Gweinyddwr y Ddeddf Iechyd Meddwl	Hydref 2015